# Cyngor Cymuned Tudweiliog

Tudweiliog Community Council

Heulwen Williams
Clerc/clerk
01758 770415

Pen Cefn,
Dinas,
Pwllheli.
LL53 8UB.

Cofnodion Cyngor Cymuned Tudweiliog  a gynhaliwyd ar Zoom nos Lun Hydref 12fed 2020

Presennol: Henry Hughes, Siân Parri, Medwyn Jones, Gareth Jones, Alan Hughes, John Davies, Seimon Glyn.
Ymddiheuriadau: Humphrey Williams, Terry Hughes

1. Cadeiriwyd gan Siân Parri ac estynnodd groeso a diolchodd i bawb am eu parodrwydd i gyfarfod yn y dull newydd yma o zoom. Eglurodd hefyd yn unol â chanllawiau Covid y bu rhaid gohirio'r Cyfarfod Blynyddol am flwyddyn, felly gofynnwyd am gefnogaeth ffurfiol i'r Cadeirydd barhau tan ddiwedd y flwyddyn – derbyniwyd cefnogaeth.

2. Gofynnwyd hefyd am gefnogaeth ffurfiol y Cyngor i'r ymgyrch a waned ar ddechrau'r cyfnod clo i gynorthwyo  ymgyrch Meddygon Teulu lloel pryd y cyfrannwyd £1000.00 i'r achos – derbyniwyd cefnogaeth.

3. Derbyniwyd y cofnodion diwethaf fel rhai cywir.

4. Materion yn codi o'r cofnodion:

a. Arwyddion Porth Colmon – oherwydd cyfyngiadau'r Covid ni fu'n bosib cynnal cyfarfod a Gilian Walker na Liz Savill.

b. Harbour Way – Mewn ymateb i ohebiaeth gan y Clerc am yr enw Saesneg 'Harbour Way' gwnaeth Mrs Diana Sutherland honiadau difrifol o hiliaeth a gormes yn erbyn y Cyngor a'r Cadeirydd. Yn dilyn derbyn arweiniad gan Un Llais Cymru a chyngor cyfreithiol gofynnwyd i Mrs Diana Sutherland a oedd hi eisiau cyflwyno'r honiadau fel cwyn ffurfiol a derbyniwyd cadarnhad ganddi nad oedd, ac felly nid oes

angen cymeryd unrhyw gamau pellach. Hefyd derbyniwyd cadarnhad gan Cyngor Gwynedd fod y busnes angen cael caniatad cynllunio ac y bydd y Cyngor yn cymeryd y camau priodol.

c. Sedd Wag- Penderfynwyd symud ymlaen i roi hysbyseb yn ffenestr siop Post Tudweiliog, cafwyd ar ddeall fod dau eisoes wedi dangos diddordeb. Gellir cyfethol Cynghorydd yn ystod cyfarfod nesaf o'r Cyngor ym mis Tachwedd.

ch. Tyllau ar y ffordd i lawr i Porth Colmon – cafwyd cadarnhad gan y Cadeirydd fod y gwaith wedi ei gwblhau.

d. Yes Cymru - Mewn ymateb i gais eto gan ymgyrch Yes Cymru cadarnhaodd yr aelodau a oedd yn bresennol eu cefnogaeth yn unfrydol, ond penderfynwyd am mae dim ond Medwyn Jones, Gareth Jones, John Davies, William Owen a Terry Hughes oedd yn bresennol y dylid cyflwyno'r mater eto yn y cyfarfod nesaf – Pleidleiswyd i gefnogi.

4. Gohebiaethau:

a. Cwyn am Garafán anghyfreithlon ar dir Bryn Mor Llangwnnadl. Erbyn hyn cafwyd cadarnhad gan Cyngor Gwynedd fod angen caniatad cynllunio ac y byddent yn cymeryd y camau priodol.

b. BDO – Cyflwynodd y Clerc y Ffurflen Flynyddol i'r Cynghorwyr, ac fe'i cafwyd yn gywir. Gwybyddodd y Clerc fod yr Archwiliad Mewnol wedi ei gwblhau.

c. Cais Cyngor Tref Nefyn am gefnogaeth i'w hymgyrch 'Tai I Bobl Leol' – Cefnogi.

Ch. Newid i'r Rheolau Sefydlog – Ar y funud fe nodir yn y Rheolau Sefydlog mai yng Nghanolfan Tudweiliog y cynhelir pob cyfarfod, o ystyried y sefyllfa bresennol, efallai y byddai'n dda o beth newid y rheol i 'unrhyw leoliad neu dechneg addas'? – Roedd pawb yn cytuno i hyn.

5. Rhannu'r Prisept:

Cyflwynodd y Clerc adroddiad ariannol (gweler ynghlwm) i'r Cynghorwyr i'w ystyried cyn rhannu'r prisept. Penderfynwyd rhannu fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Drws I Ddrws | £100.00 |
| Diffib Towyn | £50.00 |
| Mynwent Tudweiliog | £100.00 |
| Mynwent Dinas | £100.00 |
| Eglwysi Bro Madryn | £300.00 |
| Canolfan Tudweiliog | £400.00 |
| Canolfan Llaniestyn | £400.00 |
| Y Dinasyddion | £120.00 |
| Clwb y Berthan | £120.00 |
| Urdd Tudweiliog | £120.00 |

CYNHELIR Y CYFARFOD NESAF AR Zoom Nos Lun Tachwedd 9fed 2020 am 7.30yh